



Siâp a strwythur

Mae gorsafoedd pŵer niwclear yn cynhyrchu trydan. Mae gan bob gorsaf bŵer niwclear strwythurau sy'n dal yr adweithyddion. Maen nhw'n dod mewn gwahanol siapiau, ond mae pob un yn gryf iawn.

Edrycha ar y lluniau (ar y dde)

Cer ati i ddatrys enwau'r siapiau a rhoi'r llythyren gywir ar gyfer y siapiau:

nisidr

êffrs

nemorc




A



B



C



A

B

Dyma siâp hardd a chryf o'r enw cromen geodesig


Os edrychi di'n ofalus, fe all di weld llawer o wahanol siapiau.

1. Sawl siâp gwahanol wyt ti'n gallu ei weld?
2. Sawl ochr sydd gan y siapiau?
3. All di eu henwi?
4. Pe byddet ti'n sefyll yng nghanol y gromen, pa ongl byddet ti'n ei mesur rhwng A a B?
5. Os yw diamedr y gromen yn 10 metr, beth yw'r uchder?

Cer ati i greu strwythur dal cryf

Bydd angen y rhain arnat ti:

- Sbageti (y ffrâm ddur)
- Malws melys (y bolltau)
- Can diod (yr adweithydd niwclear)



Galli di dorri'r sbageti i ba bynnag maint wyt ti ei eisiau a glynu'r darnau gyda'i gilydd gyda'r malws melys.

1. Dechreua drwy wneud **polygon** 2D rheolaidd. Fe gei di benderfynu ar nifer yr ochrau ond rhaid bod digon o le i roi can tu mewn iddo.
2. Meddylia am nifer yr ochrau ac enwa'r polygon.
3. Beth yw'r ongl rhwng yr ochrau? Efallai byddi di eisiau defnyddio'r hafaliad: $\text{ongl} = (n-2) \times 180$ (n yw nifer yr ochrau)
4. Tro dy bolygon 2D yn **brism**. Rhaid i ti allu rhoi'r can yn y prism.
5. Sut all di wneud dy strwythur yn gryfach? Edrycha ar y gromen geodesig a meddwl pam ei bod mor gryf.
6. Efallai y byddai dy athro neu athrawes yn hoffi profi pa mor gryf yw dy strwythur dal drwy roi gwrthrychau trwm i bwysu ar ei ben.

